

Rhifyn 3 - Haf 2005

menterra



Cylchlythyr Menter Arloesi Amaeth Gwynedd

Croeso a Chyflwyniad

Croeso i'r trydydd rhifyn o gylchlythyr MENTERRA.

Ers cyhoeddi'r ail rif yn ystod Gaeaf 2004, mae'r prosiect wedi symud ymlaen i gychwyn ar y gwaith o dreialu tri gwahanol fath o Ffrwythau Meddal – Helygen y Môr, Aeron Tagu a Llus Americanaidd – ar ddeg fferm ar hyd a lled Gwynedd. Ceir hanes dau o'r treialwyr yn y rhifyn hwn.

Rydym yn treialu ceirch noeth organig ar fferm Bwlch Gwyn, Arthog ger Dolgellau a crambe a camelina ar ddwy fferm yn Harlech a Phen Llŷn. Ar fferm y Brifysgol yn Henfaes, Abergwyngregyn, mae treialon llai yn cael eu cynnal; sy'n cynnwys gwaith ar geirch noeth (llynedd); ceirch noeth (math Gaeaf a Gwanwyn); crambe; camelina a gwahanol fathau o haidd noeth. Gwaith ymchwil agronomeg yw hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer cynghori'r ffermwyr. Yn ogystal, rydym yn parhau i asesu gwerth mentrau posib eraill, megis madarch ecsotig a llysiau môr.

O ran gweithgareddau'r haf, bydd MENTERRA yn ymweld â'r Sioe Frenhinol, Sioe Môn, Sioe Meirion ac Eisteddfod Genedlaethol Eryri ar Cyffiniau a gynhelir yn Stâd y Faenol, Bangor. Haf prysur – ond cyffrous ! Yn olaf, mae nifer o wynebaw newydd bellach wedi ymuno â thîm MENTERRA. Ers y rhifyn olaf, mae Geraint Hughes (Rheolwr Ymchwil a Datblygu, PCB) a

Dylan Williams (Swyddog Mentrau Amaeth, Cymad) wedi gadael a dymunir pob llwyddiant iddynt hwy yn eu swyddi newydd. Yn eu lle penodwyd Dr. Lorna Lueck (Rheolwr Ymchwil a Datblygu); Hazel Jones (Swyddog Mentrau Amaeth) yn ogystal â Dr Edward Dickin fel Technegydd newydd y prosiect.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddogion Mentrau Amaeth, John Roberts neu Hazel Jones : (01766 512300).



Planhigyn Helygen y Môr, Ty'n y Bryn, Trawsfynydd



YCHWANEGU GWERTH AT WÛN - DIWEDDARIAD

Yn ein rhifyn diwethaf fe gyflwynais y gwaith yr ydym wedi ei gychwyn yma ym Mhrifysgol Cymru Bangor yn edrych ar ffyrdd o gynyddu'r cynnwys asid brasterog omega-3 mewn wÛn, gan ddilyn enghraifft Deans Farm 'Columbus' – wyau brand yn uchel mewn omega-3.

Roedd yr wÛn yn ein harbrawf diweddaraf wedi eu bwydo ar gyfres o ddietau wedi eu seilio ar ddietau gorfennu safonol am naill a'i 4 neu 7 wythnos, gydag ychwanegion o had llin, had llin cacen gywasg ac ychwanegiad had llin masnachol o'r enw 'Valomega'. Hefyd, fe wnaethom ddefnyddio ffynhonnell newydd o asidau brasterog, y cnwd newydd *Camelina Sativa*, a elwir weithiau yn 'aur pleser'. Yn ogystal, cafodd diet crynodiad unionsyth ei gynnwys fel rheolaeth fel y byddwn yn gallu pennu'n llawn yr effeithiau o bob triniaeth.

Yn dilyn lladd yr wÛn rydym wedi cymryd samplau o gig ac wedi bod yn brysur yn dadansoddi'r canlyniadau hyd yma. Hyd yn hyn mae pethau yn argoeli'n dda; rydym wedi cael "chops" o bob triniaeth wedi eu blasbrofi gan banel arbenigol ym Mhrifysgol Metropolitan

Manceinion, ac ni adroddodd un o'r profwyr unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar gyfer unrhyw un o'r triniaethau. Credai rhai o'r panel hyd yn oed bod yr wÛn a oedd wedi cael eu bwydo â'r had llin yn blasu'n well na'r anifeiliaid a gafodd eu bwydo gyda'r gwair yr oeddem wedi ei gynnwys yn yr arbrawf yma fel y 'safon aur'.

Rydym nawr yn rhedeg dadansoddiadau cemegol manwl o'r holl samplau cig er mwyn cadarnhau bod lefelau omega-3 wedi cael hwb arwyddocaol gan ein hychwanegion gyda golwg at wneud y driniaeth fwyaf effeithiol yn fasnachol yn y dyfodol agos.

Dr. Jim Dimmock
Prifysgol Cymru Bangor

Prysur fu misoedd cyntaf y flwyddyn yma yn Cymad.

Buom yn sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu ymhellach y prosiect ceirch noeth organig ar fferm Bwlch Gwyn, Arthog a chychwyn ar y gwaith o ddatblygu prosiect i dyfu Ffrwythau Meddal ar ddeg fferm amrywiol, o ran tir a hinsawdd, yng Ngwynedd.

O ran y prosiect madarch ecsotig, gobeithio y byddwn yn edrych yn gyntaf ar dyfu Shitake ac yna datblygu'r fenter i gynnwys mathau eraill o fadarch sy'n cynnig gwerth ychwanegol. Yn ogystal â thyfu'r madarch, byddwn yn cynhyrchu blociau ffrwytho gan anelu i dros-glywddo'r dechnoleg yma i'r treialwyr. Yn y pendraw bydd hyn yn galluogi'r ffermwyr i gynhyrchu blociau ffrwytho eu hunain gan sicrhau bod unrhyw fenter sy'n deillio o MENTERRA yn gwbl gynladwy a, gyda lwc, yn creu incwm ychwanegol i'r ffermwyr drwy eu galluogi i gyflenwi blociau i dyfwr madarch eraill.

Rydym yn asesu menter newydd cyffrous i ddatblygu Llysiau Môr fel cnwd i'w dyfu ar ffermydd arfordirol Gwynedd. Ar y funud mae'r Llysiau Môr dan sylw ar

gael i'w casglu ar hyd a lled ein harfordir ond nid oes cyflenwad parhaus ar gael. Petawn yn gallu tyfu y planhigion yma'n llwyddiannus, byddai'n bosib eu cyflenwi i'r farchnad yn gyson ac felly datblygu ac ehangu y farchnad bresennol gan greu marchnadoedd newydd.

Ffactor arall yw'r ffaith fod y planhigion yn cymeryd eu gwrtiaith o'r dŵr mewn pridd tywodlyd greanus sy'n agor y posibilrwydd o ddefnyddio dŵr sydd wedi ei lwytho gyda lefelau uchel o faetholion, megis nitrad a ffosffad, fel gwrtiaith i'r planhigion. Bydd y planhigion yn tynnu'r maetholion o'r dŵr (a'u ddefnyddio i greu tyfiant) ac o ganlyniad, byddai'r dŵr yn cael ei lanhau. Datblygiad diddorol mewn cyfnod ble mae mwy o fonitro nac erioed ar ddŵr sy'n mynd o ffermydd i'r afonydd ac yna i'r môr.

John Roberts
Cymad

Grawnfwydydd Amgen

– Cyfleon Newydd ar gyfer Ffermio Cymreig

Gan bod ffermio yng Nghymru wedi tueddu i arbenigo mewn da byw, mae tyfu grawnfwydydd wedi dirywio.

Mae gwrthdroi y dirywiad yma mewn ffermio cymysg gyda buddiannau i fywyd gwyllt drwy gynyddu amrywiaeth cynefin, ac ar gyfer apêl gweledol ein cefn gwlad – dychmygwch gae o haidd, yn crychdonni'n dyner yn yr awel ar noson o Haf, gyda Eryri yn y cefndir. Fe all edrych o'r newydd a'r rawnfwydydd megis ceirch, rhyg a haidd, sydd wedi cael eu hesgeuluso yn rhanbarthoedd tyfu grawnfwydydd y Deyrnas Unedig, gyflenwi cyfleon cyffrous.

Blwyddyn diwethaf, fel rhan o MENTERRA, tyfodd ffermwyr yng Ngwynedd geirch noeth. Mae'r rhain yn cynnwys ffibrau beta-glwcan, sydd yn werthfawr i'r farchnad bwyd iach gan eu bod yn medru gostwng siwgr gwaed a cholesterol, a rhoi hwb i'r system imiwedd. Mae amrywiaethau Gaeaf a Gwanwyn yn cael eu tyfu eto yr Haf yma yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes ym Mangor, ynghyd â haidd noeth a gwenith Einkorn. Mae haidd noeth neu diblisg hefyd yn cynnwys beta-glwcaniaid, ac rydym yn profi amrywiaethau o'r Almaen, Sweden a'r Weriniaeth Tsiec, er mwyn gweld sut y maent yn perfformio yn yr hinsawdd Gymreig. Einkorn oedd y math cyntaf o wenith i gael ei gyfaddasu o gwmpas 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae ganddo gynnwys uchel o beta-caroten, ac mae ganddo fath gwahanol o glwten, felly fe all gael ei fwyta gan bobl gyda anoddefedd gwenith bara. Yn yr Hydref, mae gennym gynlluniau i brofi amrywiaeth o ryg euraidd o'r Almaen, a Rhygwenith. Mae Rhygwenith, sy'n groesryw o wenith a rhyg, yn adnabyddus i ffermwyr fel grawn porthiant, er ei fod yn cynnwys cydbwysedd gwell o asidau amino na gwenith, ac fe ellir ei ddefnyddio i wneud bara iachach.



Rhyg, Fferm Prifysgol Cymru Bangor, Henfaes, Abergwyngregyn

Gellir tyfu'r cynydau yma i gyd gyda mewnbynau llai o wrtaith a phlaleiddiad na bara gwenith. Maent hefyd wedi ei haddasu'n well i rai o'r priddoedd gwaelaf i'w canfod yng Ngwynedd, ac i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd. Fel enghraifft fe all rhyg a cheirch dyfu ar briddoedd asidig, ac mae haidd a rhyg yn fwy goddefgar o sychder na gwenith.

Dr. Edward Dickin
Prifysgol Cymru Bangor



Rhygwenith, Fferm Prifysgol Cymru Bangor, Henfaes, Abergwyngregyn

SYMUD TUAG AT FASNACHEIDDIO

Tra'n llymeitian cwpaned o goffi ceirch noeth yn gynharach y flwyddyn yma y sylweddolais ein bod wedi cychwyn cymeryd camau gwirioneddol tuag at fasnacheiddio rhai o'r cnydau arbrofol a gafodd eu treialu flwyddyn diwethaf. Roedd y coffi wedi dod o'r cnwd yr oeddem wedi ei blannu mewn rhai arbrofion rhostio gweddol gyntefig ym Mwlch Gwyn, Arthog er mwyn ceisio rhagweld beth a allwn ei ddisgwyl, ac mae'n rhaid i mi ddweud, yr oeddwn wedi fy synnu a'm mhlesio.

Nid yw'n unllle'n agos at fod yn gynnyrch gorffenedig eto, ond mae'n ddigon o annogaeth i ni gychwyn arbrofion rhostio priodol gyda cheirch noeth o'r cae y flwyddyn yma. Ni fyddwn yn cystadlu â 'Costa Coffee' yn y dyfodol agos ond y mae digon o addewid i awgrymu y gall mynedfa i mewn i rhyw sector cloer o'r farchnad yma fod yn bosibl.

Mae ymchwil pellach dros y misoedd diwethaf wedi ein symud yn agosach at sefydlu arbrofion ychwanegol.

Bydd tyfu madarch – madarch ecsotig – yn dod yn wirionedd yn fuan yng Ngwynedd. Mae cynlluniau yn cael eu gwneud i osod pedwar safle treialu mewn gwahanol leoliadau yn y sir.

Gan ddefnyddio cynorthwyaeth mycolegol ("tyfu ffyn-gau") gan dyfwr sefydledig ar Brifysgol, rydym yn bwriadu sefydlu stafelloedd tyfu ar nifer fechan o ffermydd.

Mae'r stafelloedd tyfu wedi eu seilio ar addasiad cynhwysyddion 20tr wedi eu hynysu. Mae'r rhain yn cael eu gweld fel gweithgaredd potensial ar gyfer ail fenter sydd wedi eu sefydlu ar fferm a fydd, efallai, yn arwain at ffurfio cyd-weithrediad marchnata yn cynnig cnydau i rai o'r bwytaï pennaf yn y rhanbarth ac efallai, yn bwysicach, y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

Bydd y gweithgaredd yma yn ddibynnol ar pob un o'r partneriaid prosiect yn cydweithio i wneud yr arbrawf yn llwyddiannus. Wrth i wybodaeth ddod ar gael, bydd sesiynnau gweithdai ac ar y safleoedd treialu yn sicrhau ein bod yn mynd i'r un cyfeiriad, tuag at gynnyrch neu gynhyrchoedd sy'n bosib i ymelwa ohonynt !

Madarch ecsotig ar ffurf bwyd yw'r cam cyntaf yn unig, ond un hynod ddefnyddiol i roi profiad tyfu gwirioneddol i ni. Efallai nad yw'r rhagolygon gwirioneddol gyffrous yn gorwedd mewn ymdrechion wedi eu seilio ar fwyd, ond yn hytrach ynom ni a'n gallu i echdynnu neu baratoi cynhwysion gweithredol ar gyfer eu defnyddio mewn hufenau, trwythau a dognau argroenol. Rhain yw'r manau yr ydym yn eu harchwilio i weld faint o wir botensial sy'n bodoli mewn marchnata meddyginiathau naturiol a chosmetigau wedi eu seilio ar nodwed-dion a honnir sydd gan y madarch, yma ac yng ngwed-dill y byd.

Mae MENTERRA yn gweld amrywiaeth o ganlyniadau masnachol yn dechrau ymddangos o rai o'r treialon cychwynnol a gyflawnwyd. Bydd cyfuniad o dargedu craff ac ymdrech gyfun gan yr holl bartneriaid prosiect yn cefnogi datblygiad cynhyrchion newydd a hefyd yn canfod syniadau gyda photensial mwy masnachol i ffermwyr eu datblygu.

Chris Price-Jones
Cyfarwyddwr Technoleg – BIC Innovation



Tyn y Bryn, Trawsfynydd

Chwe blynedd yn ôl prynodd Jan a minnau Tyn y Bryn, daliad o 2.4 hectar yn gorwedd rhyw 900 troedfedd fry ym mryniau Gogledd Cymru.

O ran anifeiliaid, rydym nawr wedi cwblhau 6 cyfnod wyna ac wedi ychwanegu at y defaid gydag ieir, hwyaid a phan ddaw'r amser priodol o'r flwyddyn, tyrçiod. Rydym yn eu prynu i mewn yn 4 wythnos oed ac yn eu tewhau gan roi canlyniad o adar rhwng 20 – 24 pwys.



Llus Americanaidd yn tyfu ar fferm Ty'n y Bryn, Trawsfynydd

Diolch i'r rhewgell mae gennym gynhaliath barod o gig drwy gydol y flwyddyn felly rydym hefyd wedi sefydlu gardd lysiau yn tyfu cnwd gwraidd megis betys, tomatos, ciwcymbrau, letys, llysiau cadarn megis bresych, blodfresych, ysgewyll, ffa dringo a phys. Arwahan i Ffrwythau Meddal rydym wedi methu cynhyrchu ffrwythau, ac rydym yn credu bod hyn o ganlyniad i'r gwyntoedd cryfion yr ydym yn ei brofi drwy gydol y flwyddyn.

Tra'n hunan gynhaliol mewn cig a llysiau rydym wedi methu ag ennill incwm o'n fferm fechan, felly pan ddaethom yn ymwybodol o brosiect MENTERRA fe fynegom ein diddordeb yn syth.

Heddiw, mae llain o dir 75 troedfedd sgwâr wedi cael ei ffensio gan ei wneud yn ddiogel rhag cwningod a defaid, ac wedi ei blannu ynddo mae 48 o blanhigion

Llus Americanaidd a 48 o blanhigion Helygen y Môr. Dim ond am 8 wythnos yn unig mae'r Llus wedi bod yn y ddaear ond y maent yn barod yn gwneud yn dda iawn, yn blodeuo ac yn dangos arwyddion o roi ffrwythau. Plannwyd yr Helygen y Môr yn ddiweddarach ond y maent hefyd i weld yn gwneud yn dda.

Fe all Llus fod yn gnwd arian parod hynod ddefnyddiol; mae'r Llus melyn a blasus yma yn fendigedig ac, yn bwysicach, yn gofyn pris uchel. Mae Helygen y Môr yn cael ei dyfu ar gyfer ei olew sydd yn cael ei ddefnyddio yn y diwydiant cosmetig ac eto mae cred ei fod yn gnwd arian parod da.

Pan ddaw hi'n hwyr yng nghyfnod yr haf byddwn yn canfod pa mor llwyddiannus mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod ond pwy a wŷr, yn lle gweld defaid yn pori efallai y byddwn yn edrych ar gaeau o Lus a Helygen y Môr !

Peter & Jan Barrett



Peter & Jan Barrett, Ty'n y Bryn, Trawsfynydd



Y llecyn Ffrwythau Meddal, Ty'n y Bryn, Trawsfynydd

Tyddyn Meirion, Rhiw

Pedwar can troedfedd i fyny ar fynydd sy'n llechweddu i'r de yn Rhiw ym Mhen Llŷn rydym yn ffermio 20 acer ar ddaliad bychan. Oberwydd cyflwr dyrys ffermio, yn 2003 fe benderfynwyd cychwyn planhigfa goed ar gyfer coed o ffynhonnell ddarbodus leol a enwir yn "Coed Llŷn", a oedd gyda chefnogaeth lawn gan y Bwrdd AONB. Ar gyfartaledd, mae'r blanhigfa yn cynhyrchu 2,500 o goed ifanc bob blwyddyn, ac mae cwsmeriaid yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Gwynedd, cynlluniau Comisiwn Coedwigaeth, ffermwyr lleol a'r cyhoedd.

Fe gysylltom â MENTERRA ar ôl darllen ynglŷn â'r prosiect yn y papur lleol. Daeth y treialon o dan wahanol gategoriâu ac fe ddewisom ni Ffrwythau Meddal neu Aeron oherwydd ein bod yn credu buasai hyn yn gweddu'n well gyda chyflwr y pridd a'r lleoliad. Ar ôl dadansoddiad o'r pridd, yr opsiynnau gorau i ni oedd Aeron Tagu a Helygen y Môr. Cychwynnodd yr

arbrwf gyda'r llecyn pwrpasol yn cael ei ffensio a'i wneud yn ddiogel rhag cwningod a phlannwyd 76 llwyn o Aeron Tagu a 42 o lwyni Helygen y Môr. Cafodd y planhigion Helygen y Môr eu mewnfario o'r Almaen, gan fod y rhai cyffredin sy'n tyfu yn y wlad yma'n anaddas ar gyfer eu tyfu yn fasnachol. Yn yr Almaen ble mae rhai ffermydd yn tyfu hyd at 50 acer o'r planhigion yma, mae Helygen y Môr wedi cael ei dyfu ar sail fasnachol am nifer o flynyddoedd.



Aronia / Aeron Tagu yn tyfu ar fferm Tyddyn Meirion, Rhiw

Mae'n cael ei obeithio bydd y llwyni yma yn cynhyrchu cnwd da, a gyda'r cymorth a'r gefnogaeth bydd MENTERRA yn ei ddarparu byddwn yn medru danganfod marchnad ar gyfer yr Aeron.

Sion & Belinda Hughes



Y llecyn Ffrwythau Meddal, Y Bryn, Rhydyclafdy

Mae MENTERRA yn falch o gydnabod cyfraniad ariannol y cyrff hyn

